**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**15 Gorffennaf 2013**

**ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL**

**Adroddiad gan Ron Price, Swyddfa Archwilio Cymru**

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r Adroddiad Gwella Blynyddol, sydd ynghlwm fel atodiad 1, i'r Aelodau.

## Y CEFNDIR

2 O dan Fesur Llywodraeth Leol 2009, mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru adrodd ynghylch pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn cyflwyno eu gwasanaethau.

## GWYBODAETH

3 Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r modd y bu i'r Awdurdod gyflwyno a gwerthuso gwasanaethau yn 2011-12 a'r modd y mae'n cynllunio ar gyfer gwella yn 2012-13. Yn y bôn, crynodeb yw'r adroddiad gwella blynyddol o waith y llynedd a oedd yn edrych ar y trefniadau cynllunio ar gyfer 2012-13 fel rhan o'r asesiad rhagolygol (a adroddwyd yn llythyr 1 yr asesiad gwella). Mae perfformiad gwirioneddol 2011-12 yn edrych am yn ôl fel rhan o'r asesiad ail gam (a adroddwyd yn llythyr 2 yr asesiad gwella) ynghyd âg yn dadansoddi rhagor ar ystadegau 2011-12 mewn pedwar prif faes gwaith.

4 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi dod i'r casgliad fod yr Awdurdod, ar y cyfan, yn rheoli ei raglen wella yn dda. Dyma ganfyddiadau eraill ynglŷn â gwaith yr Awdurdod:

- mae'n gwneud cynnydd o ran cyflawni gwelliant yn ei swyddogaethau craidd,
- mae ei werthusiadau a'i adroddiadau ynglŷn â'i berfformiad yn gytbwys, ond nid yw'n gwneud digon i gymharu ei berfformiad â chyrff eraill, tebyg, ac
- mae'n debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2012-13.

5 Er na wnaed unrhyw argymhellion ffurfiol, disgwylir i'r awdurdod ymgorffori canfyddiadau'r adroddiad yn ei broses gynllunio yn y flwyddyn ariannol nesaf.

**ARGYMHELLIAD**

6 Gofynnir i'r Aelodau nodi'r adroddiad gwella blynyddol.